TGAU

3010N20-1

**DYDD IAU, 13 MEHEFIN 2019 – PRYNHAWN**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 2: Y Nofel

## HAEN SYLFAENOL

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

Defnyddiwch yr indecs ar dudalen 3 i ddod o hyd i'r cwestiynau ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.

COFIWCH DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL I GEFNOGI'CH SYLWADAU.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan. Dangosir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

## NOFELAU

**Tudalen**


| | |
|---|---|
| LLINYN TRÔNS (Bethan Gwanas) | 4 |
| BACHGEN YN Y MÔR (Morris Gleitzman Addasiad Elin Meek) | 8 |
| DIFFODD Y SÊR (Haf Llewelyn) | 12 |
| AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones) | 16 |
| I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn) | 21 |
| DIM (Dafydd Chilton) | 25 |

# LLINYN TRÔNS – BETHAN GWANAS

1. **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A DEFNYDDIO ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**1 1** Darllenwch y darn a gymerwyd o LLINYN TRÔNS ar dudalennau 6 a 7.
Beth sy'n digwydd ychydig cyn yr olygfa hon?
Nodwch DAIR ffaith. [3]

**1 2** Pam nad oedd Gags wedi mwynhau'r cwrs yn y gwersyll?
Nodwch DRI rheswm. [3]

**1 3** Ysgrifennwch hanes UN digwyddiad trist yn y nofel.
ESBONIWCH BETH SY'N DIGWYDD YN LLAWN A PHAM MAE'R DIGWYDDIAD YN DRIST.
Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa ar dudalennau 6 a 7.
Dylech ysgrifennu tua $\frac{1}{2}$ tudalen. [10]

**1 4** Sut gymeriad yw LLION?
Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn.
[6]

**1 5** Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o LLINYN TRÔNS ar dudalennau 6 a 7.

i) Edrychwch ar arddull llinell 9 yn y darn.
**“Be? Yr holl ffordd i fyny fan ’ma?”**
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

ii) Edrychwch ar arddull llinellau 24-26 yn y darn.
**“Y bytlar a’r morynion druain, ac nid platiau plastic ’chwaith, ond hambwrdd arian efo tebot a jwg arian, trwm, a llestri tsieina!”**
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.
- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae’r nodwedd yn effeithiol. [4]

**1 6** Dychmygwch mai chi yw Olwen.
Ysgrifennwch DDYDDIADUR OLWEN ar ddiwedd y nofel hon.
Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a’i theimladau.
Dylech ysgrifennu tua $\frac{3}{4}$ tudalen. [10]

[40]

# 6

Mi gymerodd dri chwarter awr da i gyrraedd troed y graig, a phan edrychais i'n ôl roedd y plasdy yn y dyffryn jest oddi tanon ni, a llwybr reit amlwg yn mynd i lawr ochr y graig reit at y tŷ.

"Ydi hwn yn rhan o dir yr hen blasdy felly?" gofynnais i Donna.

"Ydi, ac mi fyddai'r hen deulu'n dod i fyny yma am bicnics yn yr haf."

"Be? Yr holl ffordd i fyny fan 'ma?" gwichiodd Gwenan. "I be?"

"Am yr olygfa. Arhosa di nes cyrhaeddan ni dop y graig. Sbia, mae 'na risiau'r holl ffordd i fyny."

Roedd hi'n iawn. Roedden nhw'n troelli i fyny'r graig ynghanol y coediach, ac roedd y dŵr oedd yn diferu'n rhaeadrau bychain bob ochr i'r creigiau'n gneud i'r lle edrych reit ecsotig, bron fel jyngl, fel rhwbath allan o Jurassic Park.

Ond roeddan nhw'n mynd 'mlaen am byth, ac ar ôl ugain munud, roedd pawb yn tuchan.

"Oedd isio sbio ar eu pennau nhw," meddai Gwenan, oedd yn cael ei hugeinfed stitch. "Yn cario hamper yr holl ffordd i fyny fan 'ma!"

"Ddim y nhw oedd yn ei gario fo siŵr," gwenodd Donna. "Y bytlar a'r morynion druain, ac nid platiau plastic 'chwaith, ond hambwrdd arian efo tebot a jwg arian, trwm, a llestri tsieina!"

"Go iawn?" gofynnodd Olwen. "Sut ti'n gwbod hyn i gyd?"

"Brenda, un o genod y gegin, oedd yn deud. Roedd ei nain hi'n un o'r morynion. Mi gollodd hi

gyflog mis unwaith am ddisgyn hambwrdd hanner ffordd i fyny a malu'r llestri. Dim ond pymtheg oed oedd hi."

"Argol, bywyd braf yn de?" meddai Gwenan, cyn sylwi bod pawb yn sbio'n hurt arni. "Naci, sôn am y teulu rydw i. Meddylia cael pobol yn cario pethau i fyny i chdi fel 'na, i chdi gael byta b'echdanau ciwcymbar a chael dy de wedi'i dollti o debot arian. Mi fyswn i 'di cael y bytlar i roi jiji bac i mi hefyd."

"Bysat, mwn," meddai Gags yn dawel o'r tu ôl.

"Ond tydi pres fel 'na ddim yn golygu dy fod ti'n hapus," meddai Donna. "Mi 'nath un o'r merched ladd ei hun yma."

"Sut?" holodd Nobi.

"Taflu ei hun oddi ar y top."

"Pam?" gofynnodd Olwen.

"Does 'na neb yn gwbod," atebodd Donna. "Dim ond deunaw oed oedd hi, hogan ddel, hoffus a bywyd braf o'i blaen."

Aeth pawb yn ddistaw am sbel.

# BACHGEN YN Y MÔR
## – MORRIS GLEITZMAN (ADDASIAD ELIN MEEK)

**2. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A DEFNYDDIO ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**2 1** Darllenwch y darn a gymerwyd o BACHGEN YN Y MÔR ar dudalennau 10 ac 11. Beth sy'n digwydd ychydig cyn yr olygfa hon? Nodwch DAIR ffaith. [3]

**2 2** Pam roedd yn rhaid i'r teulu adael Afghanistan? Nodwch DRI rheswm. [3]

**2 3** Ysgrifennwch hanes UN digwyddiad trist yn y nofel. ESBONIWCH BETH SY'N DIGWYDD YN LLAWN A PHAM MAE'R DIGWYDDIAD YN DRIST. Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa ar dudalennau 10 ac 11. Dylech ysgrifennu tua $\frac{1}{2}$ tudalen. [10]

**2 4** Sut gymeriad yw JAMAL? Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn. [6]

**2 5** Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o BACHGEN YN Y MÔR ar dudalennau 10 ac 11.

i) Edrychwch ar arddull llinell 5 yn y darn.
"A fyddan nhw'n iawn?" llefa Bibi.
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

ii) Edrychwch ar arddull llinellau 15-16 yn y darn.
Rydyn ni'n cyrraedd y siop.
Dyw Mam a Dad ddim yno.
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

– Dyfynnwch y nodwedd.
– Enwch y nodwedd.
– Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

**2 6** Dychmygwch mai chi yw Bibi.
Ysgrifennwch DDYDDIADUR BIBI ar ddiwedd y nofel hon.
Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i theimladau.
Dylech ysgrifennu tua $\frac{3}{4}$ tudalen. [10]

**[40]**

Rydyn ni wedi gadael y tyrfaoedd nawr a bron â chyrraedd y siop. Mae hi wedi cymryd amser achos rydych chi'n bwrw i mewn i bethau o hyd wrth redeg a chrio ar yr un pryd.

'A fyddan nhw'n iawn?' llefa Bibi.

Mae hi wedi bod yn holi hyn yr holl ffordd yn ôl, ond dw i ddim yn ei beio hi. Dw i wedi bod yn holi'r un peth fy hunan.

'Fe fyddan nhw'n iawn,' meddaf wrthi. 'Fe ddaeth Dad i achub Mam. Fe welaist ti fe.'

Dw i ddim yn dweud dim am rwystrau ffyrdd yr heddlu ac am yr hofrenyddion sydd ag offer gweld o bell. Dw i'n gwneud dim ond edrych ar yr awyr a phoeni nes 'mod i'n teimlo'n sâl.

Rydyn ni'n cyrraedd y siop.

Dyw Mam a Dad ddim yno.

Mae Bibi'n beichio crio. Dw i'n ei chofleidio ac yn fy nghofleidio fy hun ar yr un pryd. 'Mae hyn yn beth da,' meddaf wrthym ein dau. 'Tasen nhw wedi cyrraedd yma gyntaf a gweld nad oedden ni yma, fe fydden nhw'n poeni'n fawr.'

Trueni nad oedd hyn yn teimlo'n beth da.

'Ond pam nad ydyn nhw yma?' wyla Bibi.

'Mae'n siŵr fod Dad eisiau gwneud yn siŵr nad oes neb yn ei ddilyn,' meddaf, gan obeithio fy mod i'n iawn. 'Mae'n debyg ei fod e'n gwibio i lawr strydoedd un ffordd, ti'n gwybod, fel mae gyrwyr tacsi'r ddinas yn ei wneud, meddai fe.'

Dw i'n penderfynu pacio ein bagiau er mwyn gallu gadael yn gyflym pan fydd Mam a Dad yn cyrraedd.

Dw i’n mynd i mewn i’r siop, ac yna dw i’n cofio i mi bacio popeth cyn i ni fynd i’r stadiwm. Popeth ond fy mhêl, a dw i’n ei rhoi yn fy mag nawr.

A chanhwyllbren Mam, a adawon ni â channwyll yn llosgi ynddi. Mae’r gannwyll yn dal i losgi. Dw i ddim yn mynd i’w phacio hi. Ddim eto.

‘Jamal.’

Bibi yw hi, yn sgrechian.

Dw i’n rhedeg allan. Mae cerbyd yn gwibio oddi ar yr heol yn fwrlwm o goch a gwyrdd. Mae’n aredig ei ffordd ar draws y tir agored ac yn aros mewn cwmwl o lwch rhwng y coed tapiau a’r siop.

Nawr dw innau’n sgrechian hefyd, rydyn ni’n dau’n sgrechian eu henwau nhw wrth redeg at y tacsi.

Mae Mam a Dad yn dod allan.

Rydyn ni’n cydio yn ein gilydd, y pedwar ohonom. Rydyn ni’n gwasgu mor galed, dw i’n teimlo bod fy mreichiau’n mynd i dorri. Wedyn mae Dad yn symud draw. ‘Rhaid i ni symud yn gyflym,’ medd ef, gan fynd i gist y tacsi.

Dw i ddim yn barod i symud yn gyflym, ond mae Mam yn symud draw hefyd.

# DIFFODD Y SÊR – HAF LLEWELYN

**3.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A DEFNYDDIO ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**3 1** **Darllenwch y darn a gymerwyd o DIFFODD Y SÊR ar dudalennau 14 ac 15.**
**Beth sy'n digwydd ychydig cyn yr olygfa hon?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**3 2** **Pam roedd ysgrifennu'r llythyr at Citi, ei wraig mor bwysig i Ifor?**
**Nodwch DRI rheswm. [3]**

**3 3** **Ysgrifennwch hanes UN digwyddiad trist yn y nofel.**
**ESBONIWCH BETH SY'N DIGWYDD YN LLAWN A PHAM MAE'R DIGWYDDIAD YN DRIST.**
**Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa ar dudalennau 14 ac 15.**
**Dylech ysgrifennu tua $\frac{1}{2}$ tudalen. [10]**

**3 4** **Sut gymeriad yw ANNI?**
**Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn.**
**[6]**

**3 5** Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o DIFFODD Y SÊR ar dudalennau 14 ac 15.

i) Edrychwch ar arddull llinellau 3-5 yn y darn.
**Mae o fel llygoden fawr a'i drwyn bach main yn gallu ogleuo unrhyw friwsionyn o stori neu helbul.**
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

ii) Edrychwch ar arddull llinell 23 yn y darn.
**Dim ateb.**
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

**3 6** Dychmygwch mai chi yw Hywel.
Ysgrifennwch DDYDDIADUR HYWEL ar ddiwedd y nofel.
Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i deimladau.
Dylech ysgrifennu tua $\frac{3}{4}$ tudalen. [10]

**[40]**

“Lle dach chi’ch dwy’n mynd?”

Pam fod Wil Ffurat yn dod i’r golwg bob amser pan mae rhywun leiaf angen ei weld o? Mae o fel llygoden fawr a’i drwyn bach main yn gallu ogleuo unrhyw friwsionyn o stori neu helbul. A dyma fo rŵan yn stwna ac yn busnesa, yn ein dilyn ni i fyny o dŷ nain Lora. Dydi Jim bach ddim am ddod o dŷ ei nain. Mae o wedi cyrlio’n belen fach ddagreuol ar y gadair siglo. Fedra i ddim ei feio fo. Ofn sydd arno fo, meddai nain Lora. Ofn y dieithrwch.

“Gad iddo fo yn fan hyn efo fi am rŵan,” meddai nain Lora, “a dos ditha adra i helpu dy fam, Lora fach. Duw a ŵyr be ddaw ohonoch chi, wir ...”

A dyna beth wnaethon ni. Gadael Jim bach yn sugno’i fawd ac yn igian crio. Doedd yr un ohonon ni eisiau mynd yn ôl i dŷ Lora chwaith. Dwi’n credu y byddai Lora wedi licio cyrlio ar y gadair siglo yn nhŷ ei nain a chael yr hen wraig yn mwytho’i gwallt hi. Ond pan rydach chi’n bedair ar ddeg, mae disgwyl i chi wneud rhywbeth defnyddiol, fel taflu cerrig at Wil Ffurat, y snichyn.

“Clywed fod dy dad di adra, Lora ...”

Dim ateb. Wnaeth Lora na finna ddim sbio arno fo hyd yn oed, dim ond dal i gerdded yn ein blaenau.

“Ers bora ’ma, yn gynnar, ia Lora?”

Roedd Wil yn ceisio’i orau i ddal i fyny efo ni, ond rydan ni’n dwy yn gyflym, a dyna lle roedden ni’n sgrialu fraich ym mraich ar hyd y stryd, a Wil Ffurat yn ein dilyn o bellter diogel. Mae o’n gwybod bellach ’mod i’n ddiawch o gywir wrth daflu cerrig at fferau.

Ella y gwna i ofyn i Ifan, fy mrawd, ddod i lawr i'r pentra i ddychryn tipyn arno.

"Ydi dy dad yn iawn, yndi Lora? Adra ar leave mae o, ia?"

Eisiau gwybod er mwyn cael mynd â'r stori ar hyd y pentra mae o. Nid eisiau gwybod am ei fod o'n poeni. Un felly ydi Wil. Pan gafodd Ned, brawd Lora'r gansen yn yr ysgol wythnos diwetha am fethu sillafu 'Gallipoli', mi aeth Wil Ffurat yn syth adra ar ôl ysgol i ddweud wrth ei fam, ond gan iddo fo weld Dodo Citi ar ei ffordd, mi fu'n rhaid iddo gael dweud wrthi hi hefyd, heb sychu ei geg. Bron iawn i Ned gael y wialen fedw gan ei fam wedyn, cyn iddi ddeall nad oedd o wedi gwneud dim byd gwaeth na sillafu 'Gallipoli' yn anghywir. Dydi Dodo Citi ddim yn un i ddefnyddio'r wialen fedw fel arfer, dim ond os ydi'r hogia wedi bod yn cwffio. Dydi methu sillafu enw rhyw le ym mhen draw'r byd ddim yn rheswm dros roi cansen i neb.

Beth bynnag, snichyn ydi Wil Ffurat, a dyna fo. Roedd rhywun hefo Wil heddiw ond doeddwn i ddim yn ei adnabod. Bachgen pryd tywyll, tua phymtheg oed oedd o, a doedd o ddim yn dilyn Wil, dim ond aros yng ngwaelod yr allt, ac yn ôl ei ystum roedd o wedi gweld rhywbeth arbennig o ddiddorol ar flaen ei esgid.

"Ydi dy dad yn falch o fod adra, Lora?" gofynnodd Wil wedyn, ond chafodd o ddim ateb.

"Ydi o yn y tŷ rŵan?" Dim ateb.

"Ydi o yn ei iwnifform?" Dim ateb.

# AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR
## – ALUN JONES

**4.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A DEFNYDDIO ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**4 1** **Darllenwch y darn a gymerwyd o AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR ar dudalennau 18 ac 20. Beth sy'n digwydd cyn yr olygfa hon? Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**4 2** **Pam nad oedd Gladys Davies yn hoffi Meredydd? Nodwch DRI rheswm. [3]**

**4 3** **Ysgrifennwch hanes UN digwyddiad trist yn y nofel. ESBONIWCH BETH SY'N DIGWYDD YN LLAWN A PHAM MAE'R DIGWYDDIAD YN DRIST. Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa ar dudalennau 18 ac 20. Dylech ysgrifennu tua $\frac{1}{2}$ tudalen. [10]**

**4 4** **Sut gymeriad yw GLADYS? Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn.**

**[6]**

**4 5** Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR ar dudalennau 18 ac 20.

i) Edrychwch ar arddull llinell 13 yn y darn.
**"Na, na, fedrwch chi ddim. Fedrwch chi ddim."**
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

ii) Edrychwch ar arddull llinell 22 yn y darn.
**Yr oedd golwg ddychrynllyd arno.**
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

**4 6** Dychmygwch mai chi yw Meredydd.
Ysgrifennwch DDYDDIADUR MEREDYDD ar ddiwedd y nofel hon.
Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i deimladau.
Dylech ysgrifennu tua $\frac{3}{4}$ tudalen. [10]

**[40]**

“Dieuog.”

Ni wyddai’r pen-rheithor faint o’r bobl a oedd yn y llys a ddisgwyliai glywed y gair hwn, a cheisiodd lefaru’n groyw, ond aeth ei foment o bwysigrwydd yn drech nag ef, a chrygodd ar ganol y gair. Dechreuodd deimlo’n annifyr wrth synhwyro llygaid pawb arno, ac aeth yn fwy annifyr byth pan glywodd lawer ebychiad o syndod yn dod o ganol y trigain o bobl yn yr oriel gyhoeddus fel ton annisgwyl dros y llys. Ac yna, fwyaf sydyn, daeth sŵn arall, sŵn a yrrodd y gwaed o wyneb pawb, sgrech uchel a llais merch yn gweiddi’n ddireol.

“Na, na, fedrwch chi ddim. Fedrwch chi ddim.”

Trodd y llais yn sgrech yn ôl. Yr oedd y ferch ar ei thraed ar flaen yr oriel a’i dwylo dros ei hwyneb, ac wrth ei hochr yr oedd dynes wedi neidio i fyny gan gau ei dyrnau, a cheisiai weiddi rhywbeth ar y rheithgor. Ond boddid ei hymdrechion gan sgrechiadau’r ferch yn ei hymyl.

Yr oedd y cwbl yn ormod i’r pen-rheithor. Methodd ei goesau â’i gynnal a chwympodd i lawr ar ei fainc. Yr oedd golwg ddychrynllyd arno.

Yr oedd yr Heddwas Gareth Hughes wedi darogan helynt. Gwyddai y munud y gwelodd y ferch yn dod i’r llys mai camgymeriad dybryd oedd dod â hi i glywed y dyfarniad, oherwydd yr oedd gan yr erlyniad wendidau mawr yn ei achos, fel yr oedd ef wedi dweud o’r dechrau un, ac wedi ei ddal i’w ddweud am dri mis, ei ddweud a’i ddweud nes ei fod wedi codi bron bawb o heddlu swyddfa

Penerddig yn ei ben. Ac ar ôl gwrando ar yr achos am dridiau, teimlai bod ei amheuon wedi eu cadarnhau ac y byddai'r ferch a'i theulu'n cael sioc. A sioc go hegar fydd hi, meddyliodd.

A phan wireddwyd ei amheuon, yr oedd yr heddwas yn barod. Safai ar drothwy un o'r ddau ddrws yn yr oriel, a'r munud y gwelodd y cythrwfl yn dechrau, brasgamodd rhwng y bobl syn at y ferch. Yr oedd hynny ynddo'i hun yn waith caled am fod llawer o'r bobl yn dechrau cael blas ar yr helynt, ac yn amharod i symud dim i neb. Ond llwyddodd yr heddwas, drwy ddefnyddio pen-glin a phenelin, i gyrraedd y ferch. Gwyddai y byddai pawb yn gobeithio cael gweld y ferch yn cael ei llusgo allan yn ddiseremoni, ond adwaenai Gareth Hughes hi'n rhy dda i wneud rhyw gampau felly â hi, ac yn lle ei llusgo, gafaelodd ynddi'n gadarn.

"Dyna ni, Bethan, dyna ni. Tyrd, mi awn ni o 'ma."

Gan ddal i afael ynddi, a siarad yn daer â hi, aeth â hi drwy'r bobl ac allan. Dilynwyd hwy gan y ddynes, a ddaliai i barablu a chau ei dyrnau, ond erbyn hyn yr oedd yn baglu yn ei dagrau.

"Amdanyn nhw Jim," gwaeddodd rhingyll ar yr heddwas a safai wrth ei ochr ger y drws arall. Yr eiliad nesaf, yr oedd y rhingyll yn pystylad ei ffordd drwy'r bobl, ac yr oedd ar goll yn eu canol cyn i'r llall feddwl am symud. Gwyddai'r rhingyll yn iawn yr hyn a oedd am ddigwydd nesaf. Yr oedd brawd y ferch yn yr oriel hefyd, ac yr oedd y rhingyll yn adnabod Huw Gwastad Hir, yn ei adnabod yn dda.

Yr oedd yn llygad ei le. Ar flaen yr oriel safodd gŵr cyrliog cadarn naw ar hugain oed, yn gyhyrau i'w draed, a'i wyneb yn fflamgoch. Dechreuodd weiddi nerth ei ben.

"Y cachgwn. Y ffernols clwyddog. Tasa gennych chi ferch y diawliaid ..."

# I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – Eirug Wyn

**5.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A DEFNYDDIO ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**5 1** **Darllenwch y darn a gymerwyd o I BLE'R AETH HAUL Y BORE? ar dudalennau 23 ac 24.**
**Beth sy'n digwydd ychydig cyn yr olygfa hon?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**5 2** **Pam roedd gan Carson gydymdeimlad â'r Indiaid?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**5 3** **Ysgrifennwch hanes UN digwyddiad trist yn y nofel.**
**ESBONIWCH BETH SY'N DIGWYDD YN LLAWN A PHAM MAE'R DIGWYDDIAD YN DRIST.**
**Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa ar dudalennau 23 ac 24.**
**Dylech ysgrifennu tua $\frac{1}{2}$ tudalen. [10]**

**5 4** **Sut gymeriad yw DICKS?**
**Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn.**
**[6]**

**5 5** **Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o I BLE'R AETH HAUL Y BORE? ar dudalennau 23 ac 24.**

**i)** **Edrychwch ar arddull llinell 1 yn y darn.**

**Mewn dim amser roedd y lle yn ferw.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]**

**ii)** **Edrychwch ar arddull llinellau 5-6 yn y darn.**

**Clywodd ddryll yn tanio a theimlodd boen yn saethu trwy'i goes chwith.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]**

**iii)** **Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Enwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]**

**5 6** **Dychmygwch mai chi yw Haul y Bore.**

**Ysgrifennwch DDYDDIADUR HAUL Y BORE ar y daith i'r Bosque ar ddiwedd y nofel.**

**Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i theimladau.**

**Dylech ysgrifennu tua $\frac{3}{4}$ tudalen [10]**

**[40]**

Mewn dim amser roedd y lle yn ferw. Trawodd Carson Dicks ar draws cefn ei ben gyda'i bistol nes iddo lithro yn anymwybodol dros wddf ei farch. Gafaelodd yn awenau'r ceffyl a'i dywys allan o'r Ffort. Clywodd ddryll yn tanio a theimlodd boen yn saethu trwy'i goes chwith. Edrychodd yn ei ôl. Roedd Dicks yn gorwedd yn anymwybodol ar draws gwar ei geffyl. Tywysodd ef i gyfeiriad y coed.

Ymhen ychydig daeth Carson at y fan lle'r roedd Chico'n aros amdano. Roedd o'n cyrcydu yno yng ngwlith y bore bach. Roedd y boen yn amlwg ar ei wyneb, a daliai ei fraich chwith ar draws ei stumog. Roedd y gwn yn y llall.

“Amser dial, Chico,” meddai. “Ond maen nhw'n dod ar fy ôl i.”

Gwenodd hwnnw arno fel hogyn drwg. Â chryn drafferth y cododd ar ei draed; dangosodd y graith ar ei law iddo. Cododd Carson yntau ei law.

Roedd Dicks yn dod ato'i hun.

Clymodd Carson y rhaff am ei wddf a'i thynnu'n dynn. Bu'n rhaid i Dicks godi. Clymodd Carson y rhaff yn sownd yn y goeden. Ceisiodd Dicks ymryddhau, ond roedd y rhaff yn rhy dynn iddo.

Sylweddololodd Dicks yn sydyn beth oedd yn digwydd.

“Carson! Kit? KIT! ymbiliodd Dicks. “Fedri di ddim gadael i hyn ddigwydd!”

Ysgydwodd yntau'i ben.

“Mae 'na gyfiawnder hyd yn oed mewn rhyfel,

Dicks."

Troes ei gefn ar y Capten a sbardunodd ei geffyl i gyfeiriad y coed.

"Carson!" gwaeddodd Dicks ar ei ôl, ond nid arhosodd Kit Carson o gwbl. Dim ond unwaith y trodd Carson yn ei ôl a hynny i weiddi ar yr Indiad.

"Mae'r Cotiau Glas yn dod, Chico!"

"Carson!"

Ond roedd ei waedd yn ofer. Gwyliai Dicks ei obaith yn pellhau oddi wrtho fel y carlamai Carson nerth carnau ei farch oddi yno. Ond beth oedd y sŵn yna? Sŵn fel taranau yn dod o bell? Sŵn carnau ceffylau!

Tynnodd Chico forthwyl y gwn yn ei ôl, ac eisteddodd wrth fôn y goeden. Fferrodd Dicks pan glywodd y sŵn hwnnw. Roedd hi'n fore braf ac roedd yntau ar fin marw! Roedd wedi dod trwy ysgarmesau lu, a rŵan roedd yn mynd i farw dan law Indiad nad oedd eto'n hanner ei oed! Oedd o'n mynd i farw? Fedrai o wneud rhywbeth i'w achub ei hun? Tynnu sylw'r Indiad felltith yma cyn iddo fo wasgu'r triger a thanio'i ergyd?

Edrychodd eto ar Chico. Ceisiai hwnnw godi ar ei draed. Gallai Dicks weld ei fod yn cael trafferth. Gafaelai yn ei stumog ac roedd ei wyneb yn llanast o boen.

Roedd sŵn carnau'r ceffylau yn dynesu. Daeth fflach o obaith i galon Dicks. Yna anobaith. Fe fyddai'r Indiad ddiawl yma'n siŵr o orffen ei waith ysgeler cyn i'r milwyr gyrraedd.

## DIM – DAFYDD CHILTON

**6.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan DDYFYNNU'N BWRPASOL A DEFNYDDIO ENGHREIFFTIAU PENODOL O'R NOFEL I GEFNOGI EICH ATEBION.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**6 1** **Darllenwch y darn a gymerwyd o DIM ar dudalennau 27 ac 28.**
**Beth sy'n digwydd ychydig cyn yr olygfa hon?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**6 2** **Sut mae Owain yn llwyddo i gynhyrfu Gwyn yn y nofel?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3]**

**6 3** **Ysgrifennwch hanes UN digwyddiad trist yn y nofel.**
**ESBONIWCH BETH SY'N DIGWYDD YN LLAWN A PHAM MAE'R DIGWYDDIAD YN DRIST.**
**Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa ar dudalennau 27 ac 28.**
**Dylech ysgrifennu tua $\frac{1}{2}$ tudalen. [10]**

**6 4** **Sut gymeriad yw RICHARD LLOYD?**
**Rhowch enghreifftiau o'r ffordd mae'n ymddwyn.**
**[6]**

**6 5** Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o DIM ar dudalennau 27 ac 28.

i) Edrychwch ar arddull llinellau 1-2 yn y darn.

**Doedd dim arwydd o deimlad ar wyneb Gwyn, ond roedd yn welw, a'i lygaid yn fawr.**

Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

ii) Edrychwch ar arddull llinell 33 yn y darn.

**A ddylai ei hanfon hi? Ar ôl cymaint o amser?**

Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2]

iii) Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Dyfynnwch y nodwedd.
- Enwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4]

**6 6** Dychmygwch mai chi yw Gwyn.
Ysgrifennwch DDYDDIADUR GWYN noson angladd Richard Lloyd.
Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i deimladau.
Dylech ysgrifennu tua $\frac{3}{4}$ tudalen. [10]

**[40]**

Doedd dim arwydd o deimlad ar wyneb Gwyn, ond roedd yn welw, a'i lygaid yn fawr. Darllenodd y llythyr unwaith eto. Ac yn raddol fe arafodd rhuthr ei feddyliau, a dechreuodd allu dygymod â goblygiadau'r hyn oedd ganddo yn ei law. Tynnodd anadl ddofn, a'i gollwng. Ac yn y gollwng roedd rhywbeth yn debyg i ochenaid. Cyfeiriodd ei lygaid at dri gair olaf y llythyr a ffurfiodd ei wefusau i'w siâp. A dywedodd nhw'n uchel. Roedd eu sŵn yn dda.

Aeth rhai eiliadau heibio. Yna rhoddodd y llythyr yn ôl yn yr amlen wen a'i gosod yn ofalus ar un ochr. Estynnodd at yr amlen frown, oedd heb ei selio, a thynnu bwndel o bapurau ohoni. Rhoddodd yr amlen ar y bwrdd ac agor y bwndel. Aeth drwyddo'n fras, a chael ynddo gofnod o ddigwyddiadau, tebyg i ddyddiadur. A ffotograffau, o ddogfennau cyfrinachol ac o bobl. Ac, i gyd-fynd â ffotograffau'r bobl, restr o enwau.

Dechreuodd ddarllen.

A chael hanes y 'Tîm' yng Ngogledd Iwerddon.

A'u rhan yn y trais yno. Ac yn y cynllwyn i danseilio trefn Prydain.

Darllenodd am gysylltiad Owain â nhw.

Ac am ei waith yn ehangu eu hymgyrch i Gymru.

Darllenodd ac ailddarllenodd y cofnod, y dogfennau, yr enwau. Nes bod eu manylion wedi eu serio ar ei gof.

Aeth dros awr heibio cyn iddo gau'r bwndel a'i roi yn ôl yn yr amlen frown. Roedd lwmpyn yn ei fol

a hwnnw'n galed, a'r blas ceiniogau yn ei geg yn codi'r dincod arno. Edrychodd ar yr amlen frown.

A ddylai ei hanfon hi? Ar ôl cymaint o amser? A oedd o eisiau camu i'r byd hwnnw? Ystyriodd.

Yna cododd yr amlen i'w geg, llyfu'r glud ar y fflap cau a phlygu'r fflap i'w le. Roedd y rhain yn bobl a oedd wedi defnyddio Owain. Ei gamddefnyddio. Ac yna wedi ei ladd. Gosododd yr amlen yn fflat ar y bwrdd a'i chau hi'n dynn.

Efo'i ddwrn.

Yna sythodd. Rhoddodd yr amlen wen yn ei boced a galwodd ar Julius Brändli. Pan ddaeth hwnnw, fe roddodd y blwch gwag yn ôl iddo a threfnu trosglwyddo gwerth y Krugerrands i'w gyfrif ym manc y Glyn. Ac wedi diolch i'r Swisiad am ei garedigrwydd a'i drafferth fe ddechreuodd am y drws.

Yna arhosodd. Trodd yn ôl at Julius Brändli, a oedd yn edrych yn ymholgar arno.

Cododd yr amlen frown a phwyntio at y cyfeiriad ar ei blaen.

"Wo ist das?"

Darllenodd Julius Brändli y geiriau a thursio'i wefusau.

"Das ist der Wohnort der Amerikanische Botschafter," meddai. Cartref swyddogol Llysgennad yr Unol Daleithiau.

Diolchodd Gwyn iddo unwaith eto, a mynd.

DIWEDD Y PAPUR